



## **POLISI DARPARU AR GYFER LESBAIDD, HOYW, DEURYWIOL A CHROESRYWIOL Polisi (Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd)**

### **Nôd:**

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno model o bolisi ar ddarparu ar gyfer disgyblion lesbaidd, hoyw, deurywiol a chroesrywiol [LHD] ac yn ystyried rhai egwyddorion craidd ynglŷn â chyfle cyfartal i ddisgyblion.

1. Ni ddylid meddwl am LHD fel grŵp homogenaidd. Fel pobl ifanc heterorywiol mae personoliaeth LHD yn cael ei lywio gan ffactorau megis: rhyw, cenedl, ffydd, anabledd, dosbarth, amodau teulu, yn ogystal â'u tueddfryd rhywiol.
2. Mae llawer o waith ymchwil yn dangos bod LHD yn dioddef llawer oherwydd rhagfarn yn eu herbyn. Yn benodol mae'r gwaith a wnaed gan Stonewall yn dangos bod carfan helaeth o LHD yn dioddef bwlio. Gall y bwlio hyn fod yn llafar yn ogystal â bod yn gorfforol.
3. Dengys yr ymchwil hefyd bod tuedd i LHD adael yr ysgol yn 16 oed er bod eu cymwysterau yn awgrymu y gallant barhau a'u haddysg.
4. Tybir hefyd bod diffyg profiad staff ac agweddau negyddol rhieni yn ffactorau sy'n ei gwneud yn anodd i ysgolion ddelio a bwlio homoffobic.

### **Amcanion:**

1. Bydd Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd yn cynorthwyo a chynghori ysgolion ar sut i gynnal LHD ac yn gweithio i ddileu gwahaniaethu a rhagfarn a chreu cyfle cyfartal i bob disgybl.
2. Mae gan ysgolion rôl bwysig i'w chwarae i wrthweithio diffyg dealltwriaeth a rhagfarn.
3. Mae ysgolion yn ceisio creu awyrgylch lle mae'r holl staff a disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu crosawu au parchu waeth beth fo eu tueddfryd rhywiol.
4. Mae addysg yn factor allweddol er mwyn hybu goddefgarwch a chreu cymdeithas deg ac agored.

### **Canllawiau:**

1. Sicrhau fod pob disgybl yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm cenedlaethol.
2. Sicrhau cwricwlwm i'r holl bobl ifanc sy'n ymdrin â materion perthynas a thueddiadau rhywiol.
3. Paratoi hyfforddiant i athrawon ym meysydd gwahaniaethu a rhagfarn.
4. Cofio bod tueddfryd rhywiol yn rhan o'r Fframwaith Addysg Personol a Chymdeithasol darperir hyfforddiant ar yr agweddau hyn.

5. Mae'n ddyletswydd ar lywodraethwyr i sicrhau mynediad i adnoddau a darpariaeth briodol i bob disgybl.
6. Rhaid i gyrff llywodraethu sicrhau cydymffurfiant gyda'r deddfau perthnasol.
7. Rhaid i lywodraethwyr sicrhau bod cyfle cyfartal i bob disgybl waeth beth fo eu tueddiad rhywiol.
8. Dylai pennaeth sicrhau bod pob disgybl yn cael ei drin yn deg heb ystyried ei dueddfryd rhywiol.
9. Bydd y pennaeth yn sicrhau nad yw defnyddiau dysgu yn dangos gogwydd homoffobic.
10. Bydd yr ysgol yn ystyried agweddau homoffobic a bwlio ar sail tueddfryd rhywiol yn faterion disgyblu difrifol.
11. Bydd y pennaeth yn sicrhau bod systemau cynnal a chynghori ar gael i LHD, os ydynt yn dymuno gwasanaeth o'r fath.
12. Bydd y pennaeth yn sicrhau bod gofynion Cylchlythyr 11/2002 ynglŷn â Rhyw a Pherthynas yn cael eu gweithredu.

**Casgliad:**

1. Nod y Gwasanaeth Ysgolion ac Ysgolion Gwynedd yw creu sefydliadau sy'n groesawus ac agored tuag at yr holl ddisgyblion. Byddant yn gweithio i sicrhau y bydd LHD yn derbyn cyfle cyfartal ac y bydd mater tueddfryd rhywiol yn cael ei drafod yn onest er mwyn creu cymdeithas ysgol oddefgar.

Dyddiad Mabwysiadu'r polisi yn wreiddiol:

Cadeirydd y Corff Llywodraethwyr:

Pennaeth:

Dyddiad Adolygu'r Polisi:

---